Cyllid & Tollau EM

Briff Seneddol

# Mynd i'r afael â'r economi gudd



**Tra bod y rhan fwyaf o drethdalwyr y DU yn talu'r dreth sydd arnynt, mae lleiafrif bach yn mynnu anwybyddu eu cyfrifoldeb cyfreithiol i gofrestru eu gweithgareddau busnes a thalu'r dreth sy'n ddyledus arnynt. Mae'r briff yn esbonio sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r rhai hynny sydd ddim yn cofrestru eu gweithgareddau busnes ac yn gweithio o fewn yr hyn a elwir yn 'economi gudd'.**

## Beth yw'r economi gudd?

Mae'r economi gudd yn cyfeirio at ffynonellau incwm a enillwyd o werthiant nwyddau neu wasanaethau, nad ydynt wedi eu datgelu at ddibenion treth. Mae'r rhai sydd yn cymryd rhan yn yr economi gudd naill ai:

- yn rhai y mae eu gweithgareddau a'u hincwm yn anhysbys i CThEM
- yn rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer ac sy'n talu treth ar un neu fwy o ffynonellau incwm, ond mae ganddynt hefyd ffynhonnell incwm nad ydynt yn ei datgelu i CThEM.

## Pam mae'n bwysig

Ein bwriad yw sicrhau bod pawb yn talu'r dreth sydd arnynt. Wrth wneud hyn rydym nid yn unig yn diogelu'r cyllid sydd ar gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus y DU, ond hefyd yn sicrhau nad oes neb yn cael mantais annheg drwy dorri'r gyfraith drwy osgoi treth.

Yr amcangyfrif diweddaraf ar gyfer y bwlch rhwng y dreth a ddylai mewn theori gael ei chasglu a'r hyn sydd wir yn cael ei chasglu yw £32 biliwn. O'r ffigur yma, amcangyfrifir bod tua £5 biliwn o ganlyniad i'r economi gudd.

## Ein hagwedd tuag at yr economi gudd

Ein bwriad yw newid ymddygiad y rhai hynny sydd yn cymryd rhan yn yr economi gudd, neu sydd yn cael eu temtio i ymuno â hi, er mwyn sicrhau bod pawb yn talu'r dreth sydd arnynt. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- cefnogi busnesau sy'n dechrau gyda chanllaw addysgiadol ac offer fel eu bod yn gwybod beth sydd raid ei wneud ac yn cael eu llywio i ffwrdd o'r economi gudd
- gwneud cydymffurfiaeth yn hawsach, fel gall pobl ddod ymlaen a thalu'r dreth sydd arnynt

- gwella sut byddwn yn adnabod y rhai hynny sydd y tu allan i'r system dreth, gan gynnwys y defnydd o fwy o ddata a ddelir gan drydydd parti
- cymryd ymagwedd lymach i'r busnesau hynny sydd yn gwrthod dod ymlaen.

## Beth yr ydym yn ei wneud i fynd i'r afael â'r economi gudd

Mae gennym ystod eang o weithgareddau i adnabod a gweithredu yn erbyn y rhai hynny sydd yn cymryd rhan yn yr economi gudd:

- mae gan ein grŵp economi gudd arbenigol dros 580 o staff yn gweithio i ganfod y rhai hynny sydd o fewn yr economi gudd a'u cael i dalu'r dreth sydd arnynt
- rydym yn targedu busnesau newydd ynghyd â'r rhai sydd heb ddechrau gyda chanllaw addysgiadol ac offer i'w helpu i dalu'r swm iawn o dreth o'r dechrau. Rydym yn gweithio'n agos gyda cholegau galwedigaethol a safleoedd e-fasnach i deilwra addysg i anghenion pobl
- yn 2012-13 ymchwiliwyd i mewn i dros 19,300 o gyfranogwyr dichonadwy yr economi gudd, gan ddiogelu dros £160 miliwn mewn trethi
- rydym hyd yma wedi rhoi bron i 1,400 o gosbau i osgowyr bwriadol yn 2012-13, ac ers ei sefydlu rydym wedi cyfeirio bron i 3,000 o osgowyr treth at ein Huned Rheoli Diffygdalwyr Bwriadol. Byddant yn cael eu monitro yn agos i sicrhau eu bod yn cwrdd â'u holl oblygiadau treth
- rydym yn targedu marchnadoedd lleol i ganfod masnachwyr sydd heb dalu Treth Incwm, Yswiriant Gwladol neu TAW. Mae gwaith diweddar wedi targedu ardaloedd o Lundain, megis Camden, Walthamstow a Southwark
- rydym yn paru gwybodaeth sydd gennym yn barod i ddatgelu'r rhai hynny sydd yn cymryd rhan yn yr economi gudd, megis defnyddio data cofrestru i ddatgelu rhenti sydd heb eu datgan gan landlordiaid
- rydym wedi datblygu cyfleuster datgelu ar-lein sy'n agored i bob trethdalwr nad yw'n cydymffurfio, gan gynnwys y rhai hynny yn yr economi gudd, i gofrestru gyda ni a gosod trefn ar eu materion treth.

## Yn cefnogi Llywodraeth ehangach

Rydym yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill o'r Llywodraeth i fynd i'r afael ag effeithiau methiant i gydymffurfio â threth. Mae'r gweithrediadau hyn yn cynnwys gweithio gyda:

- Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA), er mwyn mynd i'r afael â risgiau treth y rhai hynny sydd hefyd yn cam-fanteisio ar weithwyr anghyfreithlon, gan ddiogelu bron i £2.5 miliwn hyd yma
- Safonau Masnach, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ganfod y rhai hynny sy'n cymryd rhan yn yr economi gudd, twyllwyr budd-daliadau a gyrwyr heb yswiriant, drwy stopio traffig ar ochr yr heol am archwiliad
- awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau treth sy'n gysylltiedig â mewnfudwyr sy'n gweithio ac amlfeddiannaeth o dai
- Bwrdeistrefi Llundain, UKBA a'r heddlu er mwyn mynd i'r afael â landlordiaid twyllodrus sy'n cam-fanteisio ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r bobl hyn yn cael eu cadw mewn siediau gardd neu strwythurau dros dro, sydd yn aml yn anniogel ac sydd ag amodau afiach. Mae'r landlordiaid yn ceisio osgoi treth drwy godi rhent arian mewn llaw.

## Sut gallwch ein helpu ni

Nid yw'n iawn fod y lleiafrif o fusnesau ac unigolion yn osgoi talu eu treth yn fwriadol. Gallwch ein helpu i ganfod y rhai sy'n gyfrifol. Os nad oes rhywun yn talu treth ar ei weithgareddau busnes, gallwch ein hysbysu yma: **www.hmrc.gov.uk/tax-evasion/hotline.htm**

## I gael mwy o wybodaeth

Cewch wybod sut rydym yn mynd ar war incwm sydd heb ei ddatgan yn: **www.gov.uk/sortmytax**

Dysgwch fwy ynghylch sut rydym yn mynd i'r afael ag achosion o beidio â chydymffurfio yn: **www.hmrc.gov.uk/about/briefings**